

PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 8 Tachwedd, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); y Cynghorydd G. John (Is-gadeirydd); Cynghorwyr V.J. Bailey, J.E. Charles, P. Drake, K.F. McCaffer ac R.A. Penrose.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 5. CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG – W (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYTUNO ar ymestyn ymddeoliad hyblyg W yn unol â pholisi'r Cyngor, yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth i gael ei therfynu am reswm gwahanol.

(2) BOD ymddeoliad W o gyflogaeth gyda'r Cyngor yn digwydd ar neu cyn 12 Tachwedd, 2023 ar yr amod nad oes unrhyw amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth i gael ei therfynu am reswm gwahanol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cais am ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2) Er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol i ddyddiad ymddeol hyblyg y gweithiwr, i gynorthwyo parhad gwasanaeth, darparu cefnogaeth briodol i gynorthwyo'r gweithiwr i drosglwyddo i ymddeol ac i gyfrannu at waith y Gwasanaethau Gofal Hirdymor wrth i'r Cyngor wella o effeithiau a goblygiadau'r Pandemig Coronafeirws.

**EITEM AGENDA 6. CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG O C (CGC)
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –**

PENDERFYNWYD –

(1) CYTUNO i ymddeoliad hyblyg C, yn unol â pholisi'r Cyngor, yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.

(2) CYMERADWYO'r defnydd o'r pwerau dirprwyedig priodol, er mwyn galluogi W i leihau ei oriau dan contract o 23.5 i 14 yr wythnos o 1 Rhagfyr, 2021.

(3) Y BYDD ymddeoliad C o gyflogaeth gyda'r Cyngor yn digwydd ar neu cyn 11 Awst, 2024.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cais am ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2a3) Cyflawni'r newid angenrheidiol i oriau gwaith y gweithiwr, darparu cefnogaeth briodol a chynorthwyo'r gweithiwr i drosglwyddo i ymddeol.

**EITEM AGENDA 7. PENDERFYNU AR DDISWYDDIAD M A T (RG)
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –**

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo taliad diswyddo ar 31 Rhagfyr, 2021 neu cyn hynny ar sail Cynllun E o Gynllun Ymddeoliad / Diswyddo Cynnar y Cyngor, yn amodol ar Benderfyniad (2) a T yn cydymffurfio â'r weithdrefn osgoi diswyddo.

(2) Os deuir o hyd i gyflogaeth amgen ar gyfer T, bydd yr hysbysiad yn cael ei estyn i gwmpasu unrhyw gyfnod prawf a bydd Penderfyniad (1) yn cael ei ddirymu (ynghyd ag unrhyw daliad diswyddo) os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus.

(3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Adfywio i gytuno neu beidio â chytuno â PILON (Taliad yn lle Rhybudd) yn ôl yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Penderfynu ar y cynnig diswyddo o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau na fydd yn hysbys ar hyn o bryd.
- (2) Cynnal cydymffurfiad â pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor fel Osgoi Diswyddo ac Ail-leoli fel sy'n briodol.
- (3) Galluogi PILON yn ôl yr angen.